



Cynghorwr Iechyd Meddwl

- Yr hyn y gallwn ni ei wneud i chi
- Sut i gysylltu
- Tystiolaeth Ddogfennol
- Lwfansau Myfyrwyr Anabl (LMA)
- Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (CCDP)
- Cyfrinachedd

Ffôn: 01248 383620 / 382032

E-bost: cynghorwriechydmeddwl@bangor.ac.uk

Mae'r daflen ar gael mewn gwahanol fformatau

Mae'r Cynghorydd Iechyd Meddwl: yn darparu gwasanaeth i fyfyrwyr Prifysgol Bangor sy'n profi, neu'n gwella o gyflwr iechyd meddwl a allai wneud astudio a bywyd prifysgol yn fwy heriol iddynt.

Beth allwn ni ei wneud i chi:

- Rhoi cyngor proffesiynol am faterion a gwasanaethau iechyd meddwl.
- Asesu'r anghenion sydd o ran iechyd meddwl, a chynghori ynglŷn â strategaethau i wneud astudio'n haws.
- Helpu osgoi neu reoli argyfyngau iechyd meddwl posibl, a chysylltu â gwasanaethau eraill os oes angen rhagor o gymorth arbenigol.
- Cefnogi staff y brifysgol i ymdrin â materion iechyd meddwl yn gyson ac yn sensitif.
- Helpu penderfynu beth yw'r anghenion o ran cymorth i ddysgu a chysylltu ag aelodau o'r staff, os bydd angen, i wneud yr addasiadau angenrheidiol.

Sut i gysylltu:

1. Galw heibio yn ystod y tymor:
Dydd Mercher 2 pm-3.30pm, Undeb Bangor, Lefel 4, Pontio.
2. Cwblhau ein hunanasesiad.
3. Cofrestru gyda'r Gwasanaethau Anabledd ac uwchlwytho tystiolaeth ddogfennol.

Tystiolaeth Ddogfennol:

Mae angen tystiolaeth ddogfennol briodol gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig, yn annibynnol ar ein gwasanaeth ninnau ar gyfer rhai addasiadau rhesymol, megis amser ychwanegol mewn arholiadau. Bydd angen tystiolaeth o'r fath ar eich darparwr cyllid (e.e. Cyllid Myfyrwyr) hefyd os gwnewch gais am Lwfansau Myfyrwyr Anabl.

Lwfansau Myfyrwyr Anabl (LMA):

Lle bo'n berthnasol, gall myfyrwyr wneud cais i'r sawl sy'n eu hariannu am LMA, sy'n gallu ariannu cymorth ychwanegol i'w helpu i drefnu a chwrdd â'u gofynion astudio, a sicrhau bod bywyd academiaidd a chymunedol y brifysgol yn fwy hygyrch iddynt.

Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (CCDP):

Mae Cynlluniau Dysgu Personol wedi'u llunio i fyfyrwyr unigol allu gosod y trefniadau a'r strategaethau yn eu lle sydd eu hangen i gynorthwyo gyda goresgyn rhwystrau.

Cyfrinachedd:

Mae trafodaethau'n gyfrinachol, ac ni rennir gwybodaeth oni bai fod 'angen i rywun gael gwybod', lle bo hynny'n briodol a chyda'ch caniatâd penodol chi, oni bai bod yn rhaid ei rhannu fel 'dyletswydd gofal'. Am fwy o wybodaeth, gweler: www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/confidentiality.php.cy